**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd drwy Zoom ar 24 Awst 2021**

YN BRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cyng. Simon Glyn
Ken Finch, Trysorydd
Gareth Owens, Dirprwy Glerc

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Tim Lloyd, Undeb yr FBU
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU

Yn cynghori
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau

Yn cofnodi
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Bryan Apsley
Y Cyng. John B Hughes
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Kevin Gerrard, Rheolwr Pensiynau Cronfa Bensiwn Dyfed

2 PENODI CADEIRYDD

2.1 Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, roedd angen ethol Cadeirydd newydd o blith y cohort o gynrychiolwyr y gweithwyr.

2.2 Enwebwyd Richard Fairhead gan ei gyd-aelodau ac felly penodwyd ef yn Gadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd.

3 DATGAN BUDDIANNAU

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

5 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

5.1 Aeth y Rheolwr Pensiynau â'r Aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am aelodaeth o'r cynlluniau, ynghyd â gwybodaeth am y canlynol:

- Sganio'r Gorwel
- Dyfarniad Booth
- Dyfarniad O'Brien
- Niwed Uniongyrchol
- Gohebiaeth
- Golwg Gyffredinol ar Fwletinau a Chylchlythyrau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

5.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y lefelau aelodaeth cyfredol yng nghynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nodwyd mai'r sefyllfa ym mis Mehefin 2021 oedd bod 66 o weithwyr heb gofrestru yn un o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân, sef 15 o weithwyr amser cyflawn a 51 o weithwyr y ddyletswydd RDS.

5.3 Atgoffwyd yr aelodau fod un gŵyn wrthi'n cael ei hystyried gan yr Ombwdsmon Pensiynau. Roedd y mater hwn wedi bod yn mynd ymlaen ac roedd yr ohebiaeth ddiwethaf rhwng y Gwasanaeth a'r Ombwdsmon wedi digwydd ym mis Mawrth 2020. Gofynnodd y Cadeirydd i neges e-bost gael ei hanfon at yr Ombwdsmon er mwyn ceisio cyflymu pethau.

5.4 Daeth un gŵyn i'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r gŵyn cam 1 wrthi'n cael ei hystyried; caiff yr aelodau wybod am y canlyniad yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

5.5 **Datganiadau Buddion Blynyddol (ABS)** - Nododd yr Aelodau bod y broses flynyddol ar gyfer llunio Datganiadau Buddion Blynyddol wedi cychwyn er mwyn cyhoeddi'r datganiadau erbyn 31 Awst 2021. Bydd datganiadau am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 yn seiliedig ar reolau cyfredol y cynllun. Ar hyn o bryd, ni fydd modd darparu datganiadau sy'n adlewyrchu'r dewis rhwymedi rhwng buddion gwaddol a buddion diwygiedig, ac mae'r bil a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi pennu 1 Hydref 2023 fel dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith. Bydd angen llawer o newidiadau i'r meddalwedd ar gyfer y cyfrifiadau hyn, ac ni ddisgwylir y rheini nes bydd y rheoliadau wedi cael eu diweddaru. Mae'r Rheolwr Cynllun wedi cyhoeddi diweddariad am Ddatganiad Buddion Blynyddol o fewn y cylchlythyr Crynodeb Wythnosol yn y Gwasanaeth. Mynegodd yr Aelodau bryder am yr amserlenni hirfaith dan sylw, a chadarnhaodd y PSTC MacArthur fod y Gwasanaeth yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r staff a allai fod yn ymddeol cyn 1 Hydref 2023.

5.6 **Rhwymedi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân** - Mae'r LGA wedi rhyddhau set o offer i helpu i gasglu data ar gyfer y rhwymedi gwahaniaethu ar sail oedran. Mae'r offer yn cynnwys templed casglu data a chanllaw sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar lenwi'r templed. Nodwyd bod y cynnyrch data wedi cael eu darparu i ategu'r prosesau mewnol a'r llif gwaith rhwng Awdurdodau Tân ac Achub a'r gweinyddwyr.

5.7 **Dangosfwrdd Pensiynau** – Mae dangosfwrdd pensiynau yn rhyngwyneb digidol sy'n galluogi pobl i weld eu cynilion pensiwn drwy'u hoes yn yr un lle. Mae Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr, y diwydiant pensiwn a chwmnïau technegol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i greu dangosfwrdd pensiwn.

5.8 **Dyfarniad Booth** – Cafodd yr Aelodau wybod am y datblygiadau diweddaraf gyda dyfarniad Booth, sef yr achos mwyaf diweddaraf sy'n mynd i'r afael â'r ymdriniaeth o lwfansau penodol a delir o dan Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Negodwyd cytundeb rhwng y Gwasanaeth ac Undeb yr FBU, a chymeradwywyd hyn gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystod y cyfarfod ym mis Tachwedd 2020. Nodwyd bod y trefniadau wedi cael eu cwblhau'n derfynol er mwyn adfer taliadau pensiwn ôl-ddyddiedig, gyda'r rhan fwyaf o aelodau gweithredol yn dewis cael didyniadau misol o'u cyflog dros 72 mis. Roedd aelodau-bensiynwyr wedi talu'r cyfraniadau'n llawn ac mae eu buddion wrthi'n cael eu hadolygu gan y gweinyddwyr. Rhagwelid y byddai'r broses yn cael ei chwblhau erbyn diwedd mis Awst 2021.

5.9.1 **Dyfarniad O'Brien** – Atgoffwyd yr Aelodau am gefndir yr achos hwn a oedd wedi dod i'r casgliad fod rhaid ystyried gwaith rhan amser a wnaed cyn y dyddiad cau ar gyfer trawsosod y Gyfarwyddeb Gweithwyr Rhan Amser ar 7 Ebrill 2000 wrth gyfrifo pensiwn ymddeoliad. Yn achos Mr O'Brien, roedd hyn yn golygu y byddai ei holl wasanaeth fel barnwr rhan amser yn cael ei ystyried.

5.9.2 I ymateb i'r dyfarniad, mae'r llywodraeth wedi datgan ei bod yn derbyn y byddai gan hawlwyr cymwys, sydd eisoes wedi sefydlu hawl llwyddiannus am rwymedi pensiwn ar gyfer penodiad lle telir ffi, hawl i rwymedi pellach am wasanaeth a hawliwyd cyn 7 Ebrill 2000 yn y penodiad hwnnw. Ni chytunwyd eto ar y Rhwymedi (sef sut caiff y dyfarniad ei weithredu'n ymarferol).

5.9.3 Ni roddwyd unrhyw amserlenni ar gyfer yr ail ymarferiad dewisiadau pensiwn, ond oherwydd faint o brosesau ffurfiol sy'n gysylltiedig â hyn, mae'n annhebygol iawn y caiff y rheoliadau eu diwygio yn ystod y 12 i 24 mis nesaf.

5.9.4 Wth baratoi ar gyfer yr ymarferiad, mae'r Gwasanaeth wrthi'n casglu rhestr o weithwyr (yn y presennol a'r gorffennol) a allai fod yn gymwys.

5.10.1 **Swyddfa Gartref – Canllaw ar gyfer Niwed Uniongyrchol** - ar 10 Mehefin 2021, roedd y Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllaw anffurfiol i'r ATAau yn Lloegr ar brosesu darpar achosion o 'niwed uniongyrchol' cyn deddfu i ddileu'r gwahaniaethu ar sail oedran a ganfuwyd gan ymgyfreithiad Tribiwnlys Cyflogaeth McCloud/ Sargeant.

5.10.2 Gan mai anstatudol ac anffurfiol yw'r canllaw, nid yw ynddo'i hun yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar yr ATAau. Fodd bynnag, mae gan ATAau, drwy gymhwyso adran 61 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y pŵer i gyfrifo a thalu hawliadau pensiwn o dan gynllun gwaddol yr aelod i'r aelodau hynny sy'n dod o fewn un o'r categorïau canlynol:

- dod yn gymwys i ymddeol (am unrhyw reswm, gan gynnwys afiechyd) a thynnu eu pensiwn a bod eisiau i'w holl fuddion gael eu talu o'u cynllun gwaddol (hynny yw peidio â derbyn buddion cynllun 2015); NEU
- peidio â bod yn gymwys am bensiwn ar sail afiechyd haen is (felly haen uwch) dan y trefniant Ymddeol ar sail Afiechyd, felly'n cael eu gadael heb bensiwn i'w dalu OND yn gymwys dan y trefniadau Ymddeol ar sail Afiechyd yn eu cynllun gwaddol.

5.10.3 Mae'r ddarpariaeth yn golygu bod gan yr unigolion hyn yr hawl i gael eu trin fel pe baent wedi bod mewn gwasanaeth yn eu cynllun gwaddol ers 1 Ebrill 2015, os dyna maent eisiau a'u bod yn rhoi gwybod i'r cynllun am hyn.

5.10.4 Mae'n bwysig nodi na ddylid ystyried bod y canllaw'n rhoi cyfarwyddyd i brosesu achosion sy'n dod o fewn y niwed uniongyrchol neu'n ddatrysiad pendant i'r holl ganlyniadau sy'n deillio o'r camwahaniaethu. Yn hytrach, mae'n darparu canllaw ynglŷn â sut i symud ymlaen â rhai achosion o niwed uniongyrchol petai'r Rheolwr Cynllun yn ystyried hynny'n briodol. Bydd angen edrych eto ar bob achos sy'n defnyddio'r canllaw, unwaith y bydd holl fanylion dull y Llywodraeth wedi'u cwblhau'n derfynol a bod y ddeddfwriaeth yn ei lle. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth fod yn ei lle erbyn mis Hydref 2023.

5.10.5 Ar hyn o bryd, bydd y gwaith o brosesu achosion o 'Niwed Uniongyrchol' sydd o fewn y ddau gategori yn golygu am lefel uchel o waith â llaw oherwydd nid yw'r meddalwedd pensiynau wedi cael ei ddiweddaru eto i adlewyrchu'r newidiadau. Felly, bydd angen sefydlu tîm prosiect i fynd i'r afael â'r pwysau gweinyddol.

5.10.6 Yn y cyfamser, mae ymgynghorwyr cyfreithiol yr LGA yn ceisio datblygu fframwaith y cytunir arno gydag Undeb yr FBU. Bydd hyn yn galluogi dull cyson o ymdrin ag achosion o niwed uniongyrchol. Cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2021 na fyddai achosion o niwed uniongyrchol yn cael eu prosesu nes bydd y fframwaith yn ei le.

5.10.7 Caiff rhagor o wybodaeth ei chyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Medi 2021.

**5.11 PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a'r ohebiaeth a roddwyd i'r aelodau drwy'r Crynodeb Wythnosol, sef:**

- Datganiadau Buddion Blynyddol
- Achos Llys Trosiannol
- Achos Llys O'Brien.

6 MODIWLAU 3 A 4 Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU

6.1 Rhoddodd y Rheolwr Pensiynau sesiwn hyfforddi ar gadw data cywir am aelodau a chynnal cyfraniadau'r aelodau.

6.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod rhaid i'r aelodau, yn unol â chylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, gwblhau'r cwrs llawn cyn pen chwe mis ar ôl ymuno â'r Bwrdd. Hefyd, roedd yr aelodau wedi argymell a chytuno yn ystod y cyfarfod ar 2 Mai 2019 y byddai'r gwaith dysgu'n cael ei ailadrodd bob dwy flynedd. Felly, nod y cyflwyniad hwn oedd bodloni'r argymhelliad y cytunwyd arno drwy roi sesiwn loywi ar fodiwlau 3 a 4 y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**6.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 Y DIWEDDARAF AM GRONFA BENSIWN DYFED (GWEINYDDWR Y CYNLLUN)

7.1 Yn absenoldeb cynrychiolwyr o Gronfa Bensiwn Dyfed, roedd y PSTC MacArthur wedi cyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth o safbwynt y gweinyddwyr am y canlynol:

- Gwybodaeth Reoleiddiol
- E-ohebiaeth
- Ail-gysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig
- Apeliadau
- Achosion o Dorri'r Rheolau
- Fy Mhensiynau Ar-lein
- Ansawdd data
- Llif gwaith.

7.2 Tynnodd y PSTC MacArthur sylw'r aelodau'n arbennig at faterion ansawdd data sydd wedi codi ac wedi arwain at ddarparu data anghywir i Gronfa Bensiwn Dyfed. Esboniodd y PSTC MacArthur beth yw'r cefndir a rhoddodd sicrwydd fod y mater wedi cael ei ddatrys yn dilyn gwaith manwl a helaeth gan dîm y gyflogres yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chronfa Bensiwn Dyfed. Caiff ansawdd data ei fonitro'n ofalus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau ei

fod mor gywir a chyflawn â phosibl. Un mater ar ôl i GTAGC oedd y ffaith nad oedd tîm y gyflogres wedi gweld y broblem, ond yn y dyfodol cynhelir adolygiad llawn gan dîm y Gyflogres i sicrhau bod y data'n gyflawn a'i fod yn cael ei ail-gysoni'n gywir.

**7.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

8.1 Roedd y PSTC MacArthur wedi cyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf o Fwrdd Cynghori'r Cynllun a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2021.

8.2 Roedd amrywiaeth o faterion wedi cael eu trafod, gan gynnwys prisiadau Adran Actiwari'r Llywodraeth yn 2016 a 2020, cynigion Trysorlys EM ar gyfer rhwymedi yn deillio o'r her gyfreithiol i drefniadau trosiannol 2015, dyfarniad O'Brien a gweithredu'r dangosfwrdd pensiynau.

8.3 Nodwyd bod prisiad Adran Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer 2020 wrthi'n mynd ymlaen a bod gwaith yn cael ei wneud i ystyried y mecanwaith cap costau a'r posibilrwydd o ehangu'r coridor torri cap costau o 2% i 3%. Os caiff hwnnw ei fabwysiadu, bydd yn rhoi mwy o oddefgarwch ac yn osgoi diwygio buddion y cynllun sy'n gallu cynyddu a gostwng pan gaiff y mecanwaith cap costau ei dorri. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i ystyried mecanwaith SCAPE (*Superannuation Contributions Adjusted for Past Experience*) oherwydd cydnabyddir bod newid cymharol fach yn y gyfradd yn cael effaith ar gyfraniadau'r cyflogwr.

8.4 Dangosfwrdd Pensiynau'r Deyrnas Unedig – nodwyd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio ar sefydlu dangosfwrdd pensiynau ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn galluogi mynediad at wybodaeth am bensiynau o fewn yr un lle. Mae'r rhaglen wrthi'n datblygu amserlen ar gyfer pryd y bydd darparwyr pensiynau yn ymuno â'r dangosfwrdd, ac mae'r dyddiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Roedd Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn cydnabod manteision posibl y dangosfwrdd ond roeddent yn teimlo na ddylai'r sector tân fod yn rhan o'r don gyntaf oherwydd y gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer dyfarniad McCloud. Roedd holl aelodau'r Bwrdd Cynghori yn cadarnhau eu bod yn cytuno â'r safbwynt yma a chytunwyd y dylid anfon ymateb i'r ymgynghoriad ar ran Bwrdd Cynghori'r Cynllun.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 Y GOFRESTR RISGIAU – MAES RISG 2 ARIANNOL

9.1 Atgoffwyd yr aelodau fod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn argymell bod aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystyried ac yn adolygu eu Cofrestr Risgiau yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd. Y gofrestr risgiau ar gyfer agweddau ariannol oedd wedi'i chyflwyno i'w hadolygu yn y cyfarfod hwn.

9.2 Bu'r aelodau'n trafod a ddylid ychwanegu'r mater yn ymwneud ag ansawdd data a'r posibilrwydd o wallau data at y maes risg ariannol o'r gofrestr risgiau. Fodd bynnag, nodwyd bod y risg ym Maes 1 o'r gofrestr risgiau gyfredol a bod y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar Faes 2. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i faes 2 o'r gofrestr risgiau a gyflwynwyd.

**9.3 PENDERFYNWYD nodi Maes Risg Ariannol o'r Gofrestr ar gyfer 2021/22, a bod unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau'n cael eu hymgorffori yn y gofrestr a bod y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn.**

10 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – GWEITHDREFN FEWNOL AR GYFER DATRYS ANGHYDFODAU

10.1 Roedd y Rheolwr Pensiynau wedi cyflwyno'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau wneud argymhellion i'r ATA llawn am y trefniadau ar gyfer Gweithdrefn Fewnol yr Awdurdod ar gyfer Datrys Anghydfodau.

10.2 Roedd yr Aelodau eisoes wedi cael copi o Gylchlythyr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (2021)09 a oedd yn rhoi cyfarwyddyd diweddaredig ar drefniadau'r Weithdrefn. Mae'r canllaw diwygiedig ar gyfer Gweithdrefnau yn awgrymu y dylai penderfyniad cam un gael ei gytuno neu wrthdroi gan benderfyniad panel a enwebwyd o blith cynrychiolwyr o'r ATA; gan nodi bod rhaid i'r panel gael cyngor perthnasol ar faterion technegol neu gyfreithiol.

10.3 Dan y trefniadau cyfredol yn ATAGC, caiff cam un o'r Weithdrefn ei chyfeirio at y Prif Swyddog Tân i ystyried y gŵyn. Os yw'r achwynydd yn dal yn anfodlon â'r penderfyniad gall apelio dan gam dau o drefniadau'r Weithdrefn, a chaiff y cam hwn ei chyfeirio at Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

10.4 Ar ôl trafod y mater, roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod fabwysiadu'r canllaw diweddaredig o ran gweithdrefn cam dau a chael panel sy'n cynnwys aelodau etholedig o'r Awdurdod neu unrhyw gynrychiolydd addas arall.

**10.5 PENDERFYNWYD argymhell i'r ATA llawn fod:**

**(i) canllaw'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau yn cael ei diwygio ac y dylai panel o aelodau ddelio gyda gweithdrefn cam dau;**
**(ii) y panel yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr ATA sy'n cael eu cefnogi gan un aelod-gyflogwr o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.**

11 MATERION I'W CYFEIRIO AT YR ATA

11.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r ATA ar 20 Medi. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur y bydd yr eitemau canlynol ar yr agenda:

- Diwygio'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Datrys Anghydfodau
- Swyddfa Gartref – Canllaw ar gyfer Newid Uniongyrchol

11.2 Cytunwyd nad oedd angen cyfeirio unrhyw fater arall at yr ATA.

12 UNRHYW FATER ARALL

12.1 Dim.